

CYNGOR SIR YNYS MON

CYFARFOD:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	25 Gorffennaf 2012
TEITL YR ADRODDIAD:	Adrodd ar y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas a chyhoeddi Cofrestrau Statudol Ar-lein publishing of Statutory Registers.
ADRODDIAD GAN:	Rheolwr y We Gorfforaethol
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor

1. Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr Roddion a Lletygarwch

Yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Pwyllgor Safonau, adroddwyd y byddai'r Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr Roddion a Lletygarwch yn cael ei gyhoeddi ar-linell drwy'r system e-ddemocratiaeth newydd Modern.Gov ar ddiwedd mis Mehefin. Fodd bynnag, mae nifer o anawsterau adnoddau / gofynion hyfforddi wedi codi sydd wedi gohirio'r gweithredu:

- Nid yw swydd Cynorthwydd Gweinyddol - Gwasanaethau Pwyllgorau wedi cael ei lenwi eto. Mae'r swydd yn hanfodol er mwyn galluogi'r tîm Gwasanaethau Pwyllgor i weithredu a chynnal y system newydd..
- Dechreuodd swyddog, newydd ei phenodi, e-ddemocratiaeth, Tîm y We, Gwasanaethau TGCh ei gwaith ar ddiwedd mis Ebrill. Mae'r swyddog wedi cael hyfforddiant ym maes cyhoeddi i'r rhyngwyd trwy'r system rheoli cynnwys corfforaethol ac wedi mynychu sesiynau hyfforddi pellach ar 10fed - 11eg o Orffennaf i'w galluogi i symud ymlaen i gyhoeddi'r Agenda a Chofnodion i'r rhyngwyd drwy'r System Modern.Gov.

Bydd y swyddog newydd ei hyfforddi e-ddemocratiaeth yn cyhoeddi yn uniongyrchol i'r rhyngwyd o'r system Modern.Gov ym mis Medi a bydd yn raddol yn hyfforddi ac yn cyflwyno'r cyfrifoldeb o gyhoeddi yn uniongyrchol i'r swyddogion gwasanaethau pwyllgorau dros y misoedd nesaf. Bydd cefnogaeth barhaus yn cael ei ddarparu.

2 Cofrestr Buddiannau a ddatganwyd mewn Cyfarfodydd

Bydd yr agwedd Rhaglenni a Chofnodion y system Modern.Gov newydd yn weithredol ac yn cyhoeddi i'r rhyngwyd erbyn diwedd mis Medi. Bydd y Gofrestr Buddiannau a ddatganwyd mewn Cyfarfodydd yn cael ei chyhoeddi drwy'r system Modern.Gov newydd fel y mae ar hyn o bryd h.y. bydd nodyn yn cael ei ychwanegu at y cofnodion yn datgan bod datganiad o ddi-ddordeb wedi cael ei wneud a'i gofnodi. Y nod yw symud

i ffwrdd oddi wrth y dull sy'n seiliedig ar bapur ar hyn o bryd i gyhoeddi yn uniongyrchol o'r system Modern.Gov cyn gynted ag y bo modd..

3. Hyfforddiant i Aelodau

Bydd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn gweithio mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth TGCh i ddarparu hyfforddiant, yn ddibynnol ar adnoddau sydd ar gael, ar gyfer yr holl Aelodau etholedig ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol Mai 2013 fel rhan o'u hamserlen hyfforddiant 2012/13. Bydd hyn yn eu galluogi i ddiweddarau eu gwybodaeth ar-linell ar y fersiynau ar-lein o'r Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr Roddion a Lletygarwch. Yn y cyfamser bydd y ddwy gofrestr ar-linell yn cael eu cynnal gan Tîm y We.